



Ministry  
of Justice



HM Prison &  
Probation Service

**Enw'r polisi:** Fframwaith Polisi Eiddo Carcharorion

**Cyfeirnod:** N/A

**Dyddiad Cyhoeddi:** 23 Tachwedd 2022

**Dyddiad Gweithredu:** 5 Medi 2022

**Mae'r polisi hwn yn cymryd lle'r dogfennau canlynol (e.e. Cyfarwyddyd y Gwasanaeth Carchardai, Gorchmynion y Gwasanaeth Carchardai, Manylebau'r Ddalfa) a ddiddymir drwy hyn:**

- PSI 12/2011 Eiddo Carcharorion
- PSI 14/2015 Gwaredu Eiddo heb ei Awdurdodi Carcharorion
- Manyleb Eiddo Carcharorion

**Angen camau gweithredu gan:**

	Pencadlys HMPPS	X	Llywodraethwyr
X	Carchardai Sector Cyhoeddus		Penaethiaid y Grwpiau
X	Carchardai drwy Gontract		Y Gwasanaeth Prawf
x	Sefydliadau i Droseddwyr dan 18		Darparwyr Gwasanaethau Prawf a Chymunedol eraill
	Tîm Gwasanaethau Adsefydlu drwy Gontract HMPPS		

**Camau Gweithredu Gorfodol:** Rhaid i'r holl grwpiau y cyfeirir atynt uchod lynu at y Gofynion sydd yn y Fframwaith Polisi hwn, sy'n cynnwys pob cam gweithredu gorfodol.

Erbyn y dyddiad gweithredu, rhaid i Lywodraethwyr Carchardai'r Sector Cyhoeddus a Charchardai drwy Gontract sicrhau bod eu gweithdrefnau lleol yn esgor ar y Canlyniadau angenrheidiol ac yn cydymffurfio â'r Gofynion a eglurir yn y Fframwaith Polisi hwn.

Mae Canllawiau i Lywodraethwyr ar gynllunio'r ddarpariaeth leol wrth ymateb i Fframweithiau Polisi i'w gweld yn <https://intranet.noms.gsi.gov.uk/corporate/prison-reform/empowered-and-accountable-governors/deregulation>

**Er Gwybodaeth:** Rhaid i'r Llywodraethwyr sicrhau bod unrhyw bolisiau lleol newydd y maent yn eu datblygu o ganlyniad i'r Fframwaith Polisi hwn yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Deddf Cydraddoldeb 2010).

Yn y ddogfen hon mae'r term Llywodraethwr yn cyfeirio hefyd at Gyfarwyddwyr Carchardai drwy Gontract.

**Sut fydd y Fframwaith Polisi hwn yn cael ei archwilio neu ei fonitro:** Rhaid i'r elfennau gorfodol yn y Fframwaith hwn fod yn destun gwiriadau gan reolwyr lleol.

**Yr Effaith ar Adnoddau:** Telir costau adnoddau y mae eu hangen er mwyn sicrhau bod eiddo carcharorion yn cael ei reoli'n effeithiol ac yn effeithlon o gyllidebau lleol o hyd. Cynlluniwyd y

fframwaith hwn â chyfiawnder gweithdrefnol wrth ei graidd, ac mae'n darparu mwy o ganllawiau ar gyfeiriad a safoni yn genedlaethol.

**Cysylltu:** [nlt@justice.gov.uk](mailto:nlt@justice.gov.uk)

**Awdurdodwyd gan Gyfarwyddwr y Grŵp neu ei Ddirprwy:** Yaser El-Borgi, Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Gweithredol, Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Gweithredol Canolog

**Cymeradwywyd gan OPS i'w gyhoeddi:** Sarah Coccia ac Ian Barrow, Cyd-gadeiryddion, Is-fwrdd Polisi Gweithredol, 21 Mawrth 2022

Diwygiadau

Dyddiad	Newidiadau
23/11/2022	Gwnaed diwygiad i baragraff 4.35 i nodi'n glir, lle mae gan garcharor ormodedd o eitemau y tu hwnt i derfynau rheoli maint eiddo, ni chaniateir i staff waredu eitemau o'r fath yn erbyn dymuniadau'r carcharor.

## **CYNNWYS**

<b>Adran</b>	<b>Teitl</b>	<b>Tudalen</b>
1	Pwrrpas	4
2	Tystiolaeth	4
3	Canlyniadau	5
4	Gofynion	5
	Gwiriadau rheoli	5
	Chwilio eiddo	5
	Cofnodi gwybodaeth	5
	Eitemau wedi'u hawdurdodi	7
	Rheolaeth gyfeintiol	8
	Eiddo gwerthfawr	9
	Eitemau o werth sentimental	10
	Carcharorion heb eu dyfarnu'n euog	10
	Anfon eiddo i mewn ac anfon eiddo allan	11
	Eiddo sy'n cael ei drosglwyddo rhwng carchardai	11
	Trosglwyddo eiddo y tu allan i derfynau rheolaeth gyfeintiol	12
	Rhyddhau	13
	Rhyddhau Troseddwyr sy'n Wladolion Tramor	14
	Eiddo sy'n cael ei storio'n lleol	14
	Y Ganolfan Ddosbarthu Genedlaethol (NDC), Branston	14
	Clirio llety / cell	16
	Atafaelu a gwaredu eiddo	16
	Trosglwyddo eiddo (rhoi rhodd) rhwng carcharorion	18
	Cwynion a hawliadau iawndal	18
5	Canllawiau	20
Atodiad A	Canllawiau ar gofnodi eiddo	23
Atodiad B	Taflen i garcharorion	24
Atodiad C	Enghraifft o ddatganiad gwaredu a thempled ymwadiad	25
Atodiad D	Gweithdrefnau ar gyfer anfon eiddo dros ben i NDC Branston	26
Atodiad E	Map o'r Broses Waredu Eiddo	30

## **1. Pwrpas**

Mae'r fframwaith hwn yn amlinellu'r gofynion a gwybodaeth ynglŷn â rheoli eiddo carcharorion. Mae'n gymwys i bob carcharor, gan gynnwys plant a phobl ifanc mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc dan 18 oed sydd yn ein gofal.

## **2. Tystiolaeth**

- 2.1 Er nad oes llawer o ymchwil wedi'i wneud i eiddo carcharorion, mae nifer o ffynonellau tystiolaeth eraill yn darparu gwybodaeth ynglŷn â phrofiad pobl o'r rhan hon o fywyd carchar, a pham y mae hyn mor bwysig. Mae gwybodaeth a gafwyd o'r Holiadur Mesur Ansawdd Bywyd, ac adroddiadau gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf a Byrddau Monitro Annibynnol yn adrodd stori gyson ynglŷn â sut y mae gan bolisiau ac arferion eiddo lawer o wahanol oblygiadau pwysig, a bod meysydd yn y gorffennol y gallem fod wedi eu gwella. Cwynion yn ymwneud ag eiddo yw'r rhan fwyaf o'r cwynion a dderbynnir gan y Byrddau Monitro Annibynnol a'r Ombwdsmon Carchardai a Phrawf. Mae gwella'r dull o reoli eiddo carcharorion yn debygol o sicrhau gwell canlyniadau i unigolion a sefydliadau, a helpu mewn cysylltiad â materion megis llesiant a pherthnasoedd rhwng staff a carcharorion.
- 2.2 Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu y gallai problemau sy'n ymwneud ag eiddo gael effaith negyddol ar ganfyddiadau carcharorion o agweddau amrywiol ar ansawdd eu bywyd. Mae'r rhain yn cynnwys canfyddiadau yn ymwneud ag: ymddiriedaeth yn y staff a HMPPS; perthnasoedd â staff, teulu a carcharorion eraill; effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd sefydliadau; defnydd teg a phriodol o awdurdod; cymhwysedd staff; diogelwch; a llesiant a gofid. Mae'r prif faterion y tynnwyd sylw atynt yn ymwneud â: gweinyddu eiddo (e.e. wrth drosglwyddo a chludo, yn y Dderbynfa, ac wrth storio), sut y mae'r staff yn trin eiddo (e.e. dangos parch at eiddo, cydnabod cyfrifoldeb – pan fo angen – am ddifrod neu golled), lwfansau eiddo, cyfyngiadau a diogelwch (e.e. rheolaeth gyfeintiol, eitemau crefyddol, tegwch a chysondeb rheolau, diogelwch celloedd, cyfyngiadau trosglwyddo), ac ymdrin â materion/cwynion eiddo ac iawndal (e.e. cymryd materion o ddifri, ymateb yn gyflym). Gall dull gwael o ymdrin ag eiddo, ynghyd â'r rhwystredigaeth a achosir gan hyn, gael effaith arwyddocaol ar ddiogelwch.
- 2.3 Gallai'r ffordd y mae HMPPS yn gofalu am eiddo carcharorion fod yn adlewyrchiad o'r ffordd yr ydym yn gofalu am y bobl sydd yn ein gofal. Mae eiddo carcharor yn debygol o olygu mwy na dim ond defnydd penodol eitem, neu ei gwerth ariannol. Mae'n bosibl y bydd ganddo arwyddocâd personol, yn enwedig i'r carcharorion hynny nad ydynt yn berchen ar lawer o eiddo. Gallai cael eiddo eich hun, a chael rhywfaint o ddewis ynglŷn â'r rhain, alluogi teimlad o annibyniaeth, ac i ryw raddau, a allai fod yn arwyddocaol, mae'n bosibl y gallai alluogi pobl i hyd yn oed gael rhywfaint o le iddyn nhw eu hunain tra maen nhw yn y carchar.
- 2.4 Mae tystiolaeth yn dangos y gall cyfiawnder gweithdrefnol chwarae rhan bwysig wrth reoli ac ymdrin ag eiddo carcharorion. Pan fydd pobl yn credu bod y broses o gymhwyso rheolau yn deg (sut y mae penderfyniad yn cael ei wneud, yn hytrach na pha benderfyniad sy'n cael ei wneud), bydd yn dylanwadu ar eu barn a'u hymddygiad. Cyfiawnder gweithdrefnol yw hyn. Mae ymchwil carchardai yn dangos bod y ffordd y mae carcharorion yn gweld cyfiawnder gweithdrefnol yn arwain at fwy o barch gan garcharorion tuag at staff ac awdurdod, mwy o barodrwydd i dderbyn penderfyniadau a chydweithredu â rheolau neu gyfarwyddiadau, llai o drais a chamymddwyn, a gwell lles seicolegol mewn carchardai.

- 2.5 Gweler 'Ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth' dan 'Canllawiau' am fwy o wybodaeth ynglŷn â chyfiawnder gweithdrefnol.

### **3. Canlyniadau**

- Mae eiddo carcharorion yn cael ei reoli'n effeithlon, yn effeithiol, yn gyson ac â gofal a pharch, gan gydnabod arwyddocâd personol ac emosiynol posibl eitemau.
- Mae staff a charcharorion yn ymwybodol o'r rheolau ynglŷn â pha eiddo y gellir eu cadw neu eu storio, ac yn cydymffurfio â hwy.
- Mae eiddo yn unol â chanllawiau rheolaeth gyfeintiol ac yn gyson â chynlluniau cymhelliant lleol.
- Mae carcharorion yn gallu byw bywydau mor normal ac unigol ag sy'n bosibl o fewn cyfyngiadau amgylchedd y carchar.
- Mae eiddo carcharorion yn cael ei wirio, ei gofnodi, ei storio, ei roi neu ei anfon allan yn gywir.
- Mae rheolau a phenderfyniadau ynglŷn ag eiddo carcharor yn cael eu hegluro'n briodol wrth y carcharor mewn iaith/fformat y gall ei ddeall.
- Mae unrhyw ddull o waredu eiddo carcharorion yn cael ei weithredu'n briodol.
- Gwneir ymchwiliad trylwyr ac effeithlon i gwynion yn ymwneud ag eiddo, a rhoddir ad-daliad priodol am eitemau sydd wedi eu colli neu eu difrodi, gan osgoi ymglyfreitha diangen.

### **4. Gofynion**

#### **Gwiriadau rheoli**

- 4.1 Dylai llywodraethwyr<sup>1</sup> sicrhau bod gwiriadau rheoli yn cael eu gwneud er mwyn gwneud yn siŵr bod eiddo carcharorion yn cael ei drin a'i drafod yn gywir ac yn ofalus (e.e. bod cardiau eiddo yn cael eu cwblhau'n gywir a bod nifer yr eitemau sy'n cael eu cadw gan garcharorion yn cael ei wirio'n rheolaidd ac nad oes ganddynt ormod o eitemau).

#### **Chwilio eiddo**

- 4.2 Er mwyn sicrhau ymarfer amddiffynadwy, cyson a phroffesiynol, rhaid i'r gwaith o chwilio drwy unrhyw eiddo sydd gan garcharorion gyda nhw pan fyddant yn dod i'r carchar (gan gynnwys wrth gael eu trosglwyddo), eiddo sy'n cael ei gadw yn y gell ac eiddo sy'n cael ei storio, gael ei wneud yn unol â'r Fframwaith Diogelwch Cenedlaethol a'r strategaeth chwilio lleol.

#### **Cofnodi gwybodaeth**

- 4.3 Rhaid i bob carcharor newydd sy'n cyrraedd y carchar gael rhif bocs eiddo ar system NOMIS y Carchar cyn iddo adael y dderbynfa.
- 4.4 Dan Reol Carchardai 43, mae'n ofyniad statudol i gadw rhestr glir a darllenadwy o eiddo carcharor. Rhaid cofnodi hyn ar y cerdyn eiddo priodol. Mae hyn yn bwysig er mwyn gallu tracio eitemau, eu storio'n ddiogel a dod o hyd iddynt yn nes ymlaen.

---

1 Gellir cymryd bod cyfeiriadau at y Llywodraethwr yn y fframwaith polisi hwn hefyd yn cynnwys Cyfarwyddwr carchar sy'n cael ei weithredu drwy gontract.

Y cardiau eiddo yw:

- F2056A Cofnod Eiddo Carcharor
- F2056B Eiddo ym Meddiant Carcharor – Dillad yn Unig (gan gynnwys esgidiau)
- F2056C Eiddo sy'n cael ei Storio
- F2056D Eiddo ym Meddiant Carcharor
- F2056E Cofnod Eiddo ar gyfer Trosglwyddo / Rhyddhau Dros Dro

4.5 Er mwyn bod yn effeithiol, ac er mwyn osgoi problemau, cwynion ac ymglyfreitha, rhaid i gardiau eiddo gynnwys manylion am yr holl:

- eiddo a gedwir ym meddiant carcharorion (gan gynnwys y dillad y maent yn eu gwisgo pan maent yn cyrraedd y carchar), ar wahân i eitemau traul/untro;
- eiddo sy'n cael ei storio yn lleol;
- eiddo a anfonir i'r Ganolfan Ddosbarthu Genedlaethol (NDC) yn Branston, gan gynnwys eitemau mawr iawn, yr eitemau a gedwir ym mhob bocs storio a'r rhifau selio;
- eitemau sy'n eiddo i'r carcharor ond nad ydynt i'w rhoi iddo;
- eitemau sy'n cael eu prynu gan y carcharor (e.e. drwy gatalogau);
- rhifau selio diogelwch ar gyfer eiddo sy'n cael ei drosglwyddo;
- seliau wedi'u difrodi a rhifau selio newydd;
- rhifau selio diogelwch ar gyfer eitemau gwerthfawr sy'n cael eu storio'n lleol;
- eitemau sydd wedi cael eu benthyg i'r carcharor gan y carchar (e.e. y Gaplaniaeth) ac y nodir yn glir bod yr eitem ar fenthyg;
- cymhorthion anabledd, a lle bo modd, y nodir yn glir pa un a yw'n eitem wedi'i phrynu'n breifat ynteu'n un wedi'i darparu gan y GIG;
- eitemau wedi'u hatafaelu, a oedd wedi'u hawdurdodi yn flaenorol;
- eitemau a roddwyd i'r carchar gan y carcharor;
- eitemau sydd wedi cael eu trosglwyddo rhwng carcharorion (gweler 'Trosglwyddo eiddo (rhoi rhodd) rhwng carcharorion');
- anghytundebau ynglŷn ag eiddo sydd i fod i gael ei ddychwelyd i garcharorion sy'n gadael y carchar, neu unrhyw eitemau sydd wedi eu colli neu eu difrodi;
- eiddo y cafwyd gwared arno;
- achosion lle talwyd iawndal am eiddo sydd wedi'i golli neu ei ddifrodi.

4.6 Dan Reol Carchardai 43, mae'n ofynnol i garcharorion sy'n oedolion lofnodi'r cerdyn eiddo sydd wedi'i gwblhau. Disgwylir i unigolion dan 18 oed mewn sefydliadau troseddwr ifanc hefyd lofnodi eu cardiau eiddo. Mae'r cerdyn eiddo yn cynnwys ymwadiad ac mae'n bwysig bod pob carcharor newydd yn cael help i ddeall y cerdyn eiddo a'r ymwadiad, gan gynnwys defnyddio gwasanaeth cyfieithu os oes angen. Os nad yw carcharorion yn fodlon lofnodi, dylid cofnodi'r rhesymau yn glir ar y cerdyn. Ni ddylid defnyddio ymwadiad sydd wedi'i gynhyrchu'n lleol ar gyfer eiddo.

4.7 Rhaid diweddarau cardiau eiddo i adlewyrchu unrhyw newidiadau i eiddo carcharor a rhaid gwahodd carcharorion i lofnodi'r cerdyn cyn gynted ag y bo modd ar ôl unrhyw newidiadau,

ac ar ôl cael cyfle iawn i weld ei fod yn gywir. Po fwyaf tryloyw yw'r broses hon, po fwyaf ffyddiog fydd y carcharorion y bydd eu heiddo'n derbyn gofal priodol.

- 4.8 Pan fydd trafodiad yn effeithio ar nifer o eitemau, bydd angen diweddarau'r cardiau eiddo priodol fel bod y canlyniad yn cael ei gofnodi'n glir gyferbyn â phob eitem unigol. Mae'r ddisgyblaeth hon yn bwysig a bydd o gymorth wrth ymateb i unrhyw gwynion a darparu trywydd archwilio effeithiol i'r staff a rheolwyr.
- 4.9 Rhaid rhoi manylion priodol ar gyfer pob cofnod ar gardiau eiddo. Dylai unrhyw fyfoddau fod yn unol â'r rhai sydd wedi'u hargraffu'n barod ar y cardiau eiddo. Os oes angen defnyddio byfoddau eraill, dylid cynnwys allwedd fel bod pobl eraill yn gallu deall yn rhwydd beth a olygir. Os yw'r cofnodion o ansawdd da bydd y system yn fwy dibynadwy ac effeithiol, a bydd yn haws datrys problemau.
- 4.10 Rhaid i unrhyw gardiau eiddo a nodir fel rhai annarllenadwy, aneglur neu anaddas i'w diben mwyach gael eu hailrestru er mwyn sicrhau bod pob eitem sy'n rhan o eiddo carcharor yn cael ei chofnodi'n gywir ac yn glir.
- 4.11 Rhaid i bob cofnod o eiddo (gan gynnwys hen gardiau wedi'u cwblhau), ymwadiad eiddo a thystysgrifau clirio celloedd gael eu storio'n ddiogel yng nghofnod craidd y carcharor er mwyn sicrhau bod eiddo carcharor yn cael ei gofnodi a'i reoli'n effeithiol.
- 4.12 Rhaid cofnodi eitemau ag enwau brand arnynt, gan gynnwys dillad, fel 'eitem wedi'i marcio â logo brand' yn hytrach nag 'eitem brand'. Gweler 'Cwynion a hawliadau iawndal' am fwy o wybodaeth.
- 4.13 Gweler 'Eiddo gwerthfawr' am wybodaeth ynglŷn â chofnodi eitemau gwerthfawr. Mae Atodiad A yn cynnwys mwy o ganllawiau ynglŷn â sut i gofnodi eiddo.

#### **Eitemau wedi'u hawdurdodi**

- 4.14 Wrth benderfynu a ddylid caniatáu i garcharor gael eitem benodol, mae angen ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys:
- **A yw'r eitem yn cael ei chaniatáu dan Ddeddf Rheoli Troseddwy'r 2007:** gweler PSI 10/2012 *Cludo a Meddu ar Eitemau Gwaharddedig a Throseddau Cysylltiedig Eraill*.
  - **Natur y Deunydd:** Mae *Llawlyfr Diogelu'r Cyhoedd* yn amlinellu deunyddiau na ddylai carcharorion gael mynediad atynt, ac mae angen i'r staff fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau hyn. Yn fwy cyffredinol, rhaid i'r Llywodraethwr atafaelu dros dro, nes bydd penderfyniad wedi'i wneud, unrhyw gyhoeddiad os yw o'r farn bod y cynnwys yn fygythiad i drefn neu ddisgyblaeth dda neu i fuddiannau'r carchar neu ddiogelwch cenedlaethol, neu bod meddu ar y deunydd yn debygol o gael effaith niweidiol ar iechyd corfforol neu feddyliol y carcharor. Rhaid dweud wrth garcharorion beth yw'r rhesymau dros atafaelu eu heiddo dros dro, a rhoi digon o fanylion ar gyfer y penderfyniad hwn, ynghyd ag ateb eu cwestiynau. Mae hyn yn bwysig oherwydd gallai atafaelu o'r fath achosi rhwystredigaeth neu orbyrder, a gall ansawdd y penderfyniadau a'r eglurhad helpu i leihau hyn. Rhaid gwneud penderfyniadau yn unol â *Llawlyfr Diogelu'r Cyhoedd* sy'n darparu mwy o wybodaeth ynglŷn ag ymdrin ag eitemau wedi'u hatafael. Gweler 'Atafaelu a gwaredu eiddo' ar gyfer sefyllfaoedd lle byddai'n briodol gwaredu eitemau wedi'u hatafael. Mae *PSI 64/2011: Rheoli Carcharorion y mae Perygl iddynt Achosi*

*Niwed iddynt hwy eu Hunain, neu i Eraill, a Charcharorion y mae Perygl iddynt gael eu Niweidio gan Eraill*, yn darparu rhagor o wybodaeth am gymryd eitemau oddi ar garcharorion sydd mewn perygl. Wrth atafaelu eitemau anghyfreithlon, mae'n bwysig ystyried unrhyw gysylltiadau y gallai'r eitemau eu cael â dyledion carcharor a materion diogelwch carcharorion.

- **Arian Parod:** Yn unol â Rheol Carchardai 43(3) a Rheol Sefydliadau Troseddwyd Ifanc 48 (1) ni chaniateir i garcharorion gadw arian parod tra maent yn y carchar. Rhaid ymdrin ag arian parod yn unol â PSI 01/2012 *Rheoli Materion Ariannol Carcharorion*. Mae Llawlyfr Cyllid HMPPS yn darparu mwy o fanylion ynglŷn ag ymdrin ag arian tramor.
- **Rheolaeth Gyfeintiol:** Rhaid i gyfanswm yr eiddo a gedwir gan garcharor fod o fewn cyfyngiadau rheolaeth gyfeintiol oni bai fod amgylchiadau eithriadol lle mae llywodraethwr yn caniatáu i garcharor fynd dros y cyfyngiadau hyn (gweler 'Rheolaeth gyfeintiol', 'Eiddo sy'n cael ei storio'n lleol' ac 'Y Ganolfan Ddosbarthu Genedlaethol (NDC) Branston'). Mae taflen sy'n egluro'r cyfyngiadau hyn, ac y gellir ei rhoi i garcharorion pan maent yn cyrraedd y carchar, i'w gweld yn Atodiad B. Mae'r daflen ar gael ar y fewnwyd mewn gwahanol ieithoedd (gan gynnwys Cymraeg) i garchardai ei hargraffu yn ôl y galw.
- **Cymhellion:** Rhaid i eiddo y mae carcharorion yn eu cadw yn eu meddiant fod yn unol â chynlluniau cymhelliant lleol, ac mae'n bwysig bod pob carcharor yn deall y gwahaniaethau rhwng lefelau'r cynllun.

4.15 Er mwyn sicrhau amgylchedd diogel, gweddus a pharchus, mae'n bwysig bod llywodraethwyr yn gosod cyfyngiadau ar arddangos deunydd a allai beri tramgwydd, hyd yn oed os oes gan garcharor hawl i gael eitem o'r fath yn ei feddiant fel arall. Nid yw'n briodol i eitemau gael eu harddangos, er enghraifft, os yw'r cynnwys yn anweddus neu'n dreisgar, neu os byddai'n anghyson ag ymrwymadau i ddileu gwahaniaethu ac aflonyddu a hybu cydraddoldeb. Mae'n bwysig bod carcharorion yn deall pa gynnwys fyddai'n dod o fewn y categorïau hyn a pham nad yw'n cael ei ganiatáu.

4.16 Mae nifer o grwpiau unigol, neu amgylchiadau arbennig, lle mae arferion ychwanegol yn ymwneud ag eiddo yn bwysig, ac yn cael eu cysylltu â sicrhau bod carcharorion yn cael eu trin mewn ffordd weddus a pharchus. Bydd hyn yn cynnwys:

- Er mwyn cydymffurfio â PSI 05/2016 *Ffydd a Gofal Bugeiliol i Garcharorion*, a chan ystyried canllawiau yn y llyfryn i staff 'A Guide to Religious Practice in Prison' (<https://intranet.noms.gsi.gov.uk/support/chaplaincy/a-guide-to-religious-practice-in-prison>) rhaid caniatáu i garcharorion naill fod â'r cyfryw arteffactau a thestunau sy'n ofynnol ar gyfer eu crefydd yn eu meddiant, neu gael mynediad atynt.
- Rhaid caniatáu i garcharorion anabl, a'r rhai y nodwyd bod ganddynt anghenion iechyd, gofal cymdeithasol neu niwroamrywiol, gael cymhorthion/addasiadau rhesymol yn eu meddiant, neu gael mynediad atynt, yn amodol ar wiriadau diogelwch ac asesiadau ac argymhellion iechyd a/neu ofal cymdeithasol awdurdod lleol.
- Wrth ganiatáu eitemau o eiddo, rhaid ystyried anghenion carcharorion trawsrywiol a defnyddio Cytundebau Gwirfoddol lle bo'n briodol (gweler y Fframwaith Polisi *Gofal a Rheolaeth Unigolion sy'n Drawsryweddol*).
- Unrhyw eiddo ychwanegol neu eithriadol sy'n ofynnol gan fenywod yn y carchar sy'n feichiog neu sy'n byw mewn Uned Mamau a Babanod mewn carchar gyda'u plant. Er enghraifft, dillad mamolaeth, cyfarpar bwydo babanod a dillad babi. Gweler y



### **Rheolaeth gyfeintiol**

- 4.17 Mae cyfyngiadau ar eiddo yn bodoli er mwyn sicrhau diogelwch personol a diogelwch eiddo, ac er mwyn sicrhau bod modd trosglwyddo pob eiddo gyda charcharor pan fydd yn symud i sefydliad arall. Mae'r 'rheolaeth gyfeintiol' hon yn gymwys i bob sefydliad.
- 4.18 Mae profiad yn dangos bod camddealltwriaeth ynglŷn â rheolaeth gyfeintiol yn gallu arwain at rwystredigaeth a thensiwn sylweddol. Mae'n bwysig, felly, bod carcharorion a staff yn deall:
- beth yw'r terfynau rheolaeth gyfeintiol
  - pam y mae rheolaeth gyfeintiol yn bodoli
  - pam y mae'r terfynau wedi'u gosod fel y maent.
- 4.19 Rhaid i gyfanswm eiddo carcharor, boed yn ei feddiant neu yn cael ei storio, ffitio i mewn i ddau focs rheolaeth gyfeintiol o faint safonol (mae bocs rheolaeth gyfeintiol yn 70cm x 55cm x 25cm ac mae uchafswm pwysau pob bocs yn 15kg) ynghyd â hanner bocs rheolaeth gyfeintiol ar gyfer eitemau traul. Yn ychwanegol at hyn, caniateir yr eitemau a ganlyn:
- **pob papur cyfreithiol;**
  - **testunau ac arteffactau crefyddol**, sy'n hanfodol ar gyfer ymarfer crefydd y carcharor.
  - **addasiad rhesymol/cymhorthion anabled**
  - **symiau rhesymol o eitemau sy'n cynorthwyo carcharorion trawsryweddol i fyw yn y rhywedd y maent yn uniaethu ag ef.** Rhaid i lywodraethwyr fod yn fodlon nad yw'r swm a gedwir yn amharu ar chwilio effeithiol. Rhaid i gyfyngiadau ar eitemau o'r fath fod yn seiliedig ar asesiad gweithredol, asesiad risg a/neu asesiad diogelwch clir sy'n cynnwys tystiolaeth (gweler Fframwaith Polisi *Gofal a Rheolaeth Unigolion sy'n Drawsryweddol* am fwy o wybodaeth).
  - **eitemau ym meddiant carcharorion ar gyfer gofalu am fabanod** mewn unedau mamau a babanod; mae angen i Lywodraethwyr fod yn fodlon bod eitemau o'r fath yn cael eu cadw i'r pwrpas hwn, ac nad yw'r nifer a gedwir yn amharu ar chwilio effeithiol;
  - **un set o ddillad** (boed yn ddillad y carcharor ei hun ynteu'n ddillad wedi'u rhoi gan y carchar). Wrth ystyried yr un set, mae hyn yn cynnwys y dillad sy'n cael eu gwisgo gan y carcharor pan fydd nifer yr eiddo'n cael ei fonitro;
  - **dillad gwely** (un set o e.e. gobennydd, *duvet*, cynfas);
  - **un offeryn cerdd** (e.e. gitâr);
  - **poster** ac yn y blaen sy'n briodol i'w rhoi ar waliau cell; ni ellir rhoi poster ar waliau allanol;
  - **un gawell aderyn** (mewn carchardai lle caniateir adar). Fodd bynnag, os ydynt yn cael eu caniatáu, dylid hysbysu'r carcharorion o'r dechrau un nad yw pob carchar yn caniatáu adar, ac os bydd carcharor yn cael ei drosglwyddo ei bod yn bosibl na fydd yn gallu mynd â'i aderyn gydag ef. Mewn sefyllfaoedd o'r fath mae'n bwysig bod carcharorion yn deall pam y gallai carchardai unigol fod â rheolau gwahanol.
- 4.20 **Nid** yw deunyddiau addysgol, bwyd, nwyddau traul, offer coginio ac eitemau diddordebau mewn celloedd wedi'u heithrio o reolaeth gyfeintiol os ydynt yn cael eu cadw ym meddiant unigolion.

- 4.21 Mae pwyslais ar gydymffurfio â chyfyngiadau rheolaeth gyfeintiol yn bwysig drwy gydol amser carcharor yn y ddalfa. Rhaid ystyried faint o eiddo sydd gan garcharor yn barod wrth roi caniatâd iddo brynu rhagor o eitemau (e.e. o gatalogau). Os yw carcharor yn mynd dros y terfynau rheolaeth gyfeintiol, dylai'r staff ystyried ysgrifennu at y carcharor i egluro hyn a nodi sut y gall ddod â'i eiddo yn ôl o fewn y terfynau. Ar gyfer ymdrin ag eitemau sydd uwchben terfynau rheolaeth gyfeintiol, gweler 'Anfon eiddo i mewn ac anfon eiddo allan', 'Eiddo sy'n cael ei storio'n lleol' ac 'Y Ganolfan Ddosbarthu Genedlaethol (NDC), Branston'.

#### **Eiddo gwerthfawr**

- 4.22 Rhaid cael system leol i wahaniaethu rhwng eiddo gwerthfawr ac eiddo nad yw'n werthfawr. Mae hyn yn bwysig er mwyn gallu storio eitemau gwerthfawr yn ddiogel.
- 4.23 Dylid annog carcharorion i anfon eitemau gwerthfawr allan. Os nad ydynt yn cytuno i wneud hyn, rhaid egluro'n ofalus wrthynt, os digwydd i'r eiddo gael ei golli neu ei ddfrodi, na allant ddisgwyl cael iawndal am werth honedig yr eiddo os nad ydynt yn gallu profi cost prynu (gweler 'Cwynion a hawliadau iawndal'). Cefnogir hyn gan yr ymwadiad a lofnodir gan garcharorion a staff ar y cerdyn eiddo sy'n nodi bod y carcharor wedi cael ei gynghori i beidio â chael unrhyw eitemau gwerthfawr yn y carchar.
- 4.24 Y disgwyliad yw na fydd eiddo gwerthfawr ym meddiant carcharorion. Fodd bynnag, gallai rhai eitemau a ganiateir dan y Rhestr Cyfleusterau Genedlaethol (gweler y Fframwaith Polisi *Cymhellion*) fod yn werthfawr ac o bwysigrwydd sentimental. Os oes ar garcharor eisiau cadw eitemau o'r fath yn ei feddiant, dim ond os na fyddai gwneud hynny yn achosi risg i drefn dda neu ddisgyblaeth, diogelwch eiddo a diogelwch personol, a bod yr eitemau yn unol â'r Rhestr Cyfleusterau Genedlaethol, y dylid caniatáu hynny. Rhaid rhoi pob eiddo gwerthfawr arall mewn bag neu fagiau wedi'u selio a'u cadw'n ddiogel gyda'r trefniadau storio wedi'u cytuno'n lleol. Mae'n bwysig bod carcharorion yn deall beth yw'r trefniadau storio lleol, er mwyn iddynt fod yn ffyddiog bod y rhain yn gweithredu'n effeithiol a bod eu heiddo'n ddiogel.
- 4.25 Os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â gwerth ariannol posibl eiddo, dylai staff fod yn ofalus a thrin yr eitem fel eiddo gwerthfawr.
- 4.26 Rhaid disgrifio pob eiddo gwerthfawr fel y mae'n cael ei weld ac nid yn unol â datganiadau a wnaethpwyd gan garcharorion, ac nad oes modd eu gwirio. Mae cofnodi eiddo gwerthfawr yn gywir yn bwysig er mwyn gallu nodi eitemau pan fydd eu hangen ac er mwyn ymdrin ag unrhyw gwynion a allai godi yn y dyfodol.
- 4.27 Rhaid cofnodi pob darn o emwaith fel, er enghraifft, metel melyn neu wyn, yn hytrach nag aur neu arian.
- 4.28 Rhaid storio allweddau tŷ fel eiddo gwerthfawr. Dylid gofyn am yr wybodaeth a ganlyn a'i chofnodi lle bo modd: ai tenant ynteu berchennog yw'r carcharor; pwy yw'r landlord/cwmni morgais; a oes unrhyw un arall yn byw yn yr eiddo ar hyn o bryd; a manylion cysylltu pob parti sydd â diddordeb. Mae hyn rhag ofn y codir unrhyw bryder ynglŷn â dychwelyd yr allweddi gyda'r carchar cyn i'r carcharor gael ei ryddhau. Dim ond tra bydd gan y carcharor fudd perchnogol y bydd yr allwedd/allweddi yn parhau'n eiddo i'r carcharor (h.y. mae ef neu hi yn parhau'n denant neu berchennog). Ar ôl i'r hawliau eiddo gael eu dileu, bydd yr hawl i ddychwelyd yr allwedd/allweddi naill ai'n cael ei dileu neu ei throsglwyddo i'r perchennog/tenant newydd.

- 4.29 Rhaid storio pasbortau carcharorion, neu unrhyw ddogfennau adnabod eraill (e.e. cardiau adnabod neu drwyddedau gyrru) fel eiddo gwerthfawr. Mae'n bosibl y bydd angen i garcharorion sydd yn yr ystad agored gael mynediad at eu trwyddedau gyrru neu allweddï ar gyfer gwaith. Rhaid storio'r rhain yn ddiogel o hyd. Rhaid sganio pasbortau neu ddulliau adnabod eraill sy'n eiddo i garcharorion sy'n wladolion tramor ac anfon copi i'r Swyddfa Gartref – Gorfodi Mewnffudo (HOIE) [FNORCDocumentationTeam@homeoffice.gov.uk](mailto:FNORCDocumentationTeam@homeoffice.gov.uk) a chadw copïau eraill yng nghofnod craidd y troseddwr. Ni ddylid caniatáu i droseddwyr sy'n wladolion tramor anfon at drydydd parti unrhyw basbortau/cardiau adnabod/trwyddedau gyrru a gedwir ac eithrio i'w llysgenhadaeth eu hunain, HOIE, neu'r heddlu lle mae ildio'r pasbort yn un o amodau mechnïaeth.

#### **Eitemau o werth sentimental**

- 4.30 Rhaid i staff fod yn arbennig o ofalus wrth ymdrin ag eitemau sydd o werth sentimental i garcharor. Gall colli neu ddifrodi eitemau o'r fath gael effaith fawr ar garcharorion. Os yw carcharor yn nodi bod gan eitem werth sentimental, a hyd yn oed os yw'n gymharol rad, dylai staff gynghori y dylai'r eitem gael ei chadw gydag eiddo gwerthfawr yn hytrach na'i chadw ym meddiant y carcharor ei hun.

#### **Carcharorion sydd heb gael eu dyfarnu'n euog**

- 4.31 Rhaid parchu hawliau penodol carcharorion sydd heb gael eu dyfarnu'n euog. Nodir yr hawliau hyn yn Atodiad B o PSO 4600 *Carcharorion Heb eu Collfarnu, Carcharorion Heb eu Dedfrydu a Charcharorion Sifil*.

#### **Anfon eiddo i mewn ac anfon eiddo allan**

- 4.32 Rhaid i'r trefniadau ar gyfer anfon eiddo i mewn fod yn unol â'r gofynion a nodir yn y fframwaith polisi *Cymhellion*, gan gynnwys yr ystyriaethau penodol yn ymwneud ag anfon llyfrau i mewn. Mae'n bwysig bod carcharorion yn deall y trefniadau, a pham y mae'r trefniadau'n bodoli, er mwyn eu helpu i gydweithredu â'r rhain a pheidio ag achosi rhwystredigaeth neu ddryswch diangen.
- 4.33 Dan Reol Carchardai 44(4) mae gan y Llywodraethwr hawl i benderfynu pa gamau fydd yn cael eu cymryd ag eitemau a anfonir i mewn drwy'r post at garcharorion sydd wedi'u dyfarnu'n euog. Bydd yr un dull gweithredu yn gymwys i eitemau a anfonir i mewn drwy ddulliau eraill (e.e. drwy gludwr). Mae Rheol Carchardai 44(4) yn rhoi hawl i Lywodraethwyr benderfynu a ddylid rhoi eitemau o'r fath i'r carcharor, eu rhoi gyda'i eiddo sy'n cael ei storio yn y carchar ynteu eu dychwelyd i'r sawl a'u hanfonodd. Os nad yw enw a chyfeiriad y sawl a anfonodd yr eitemau yn hysbys, neu os yw'r eitem yn un y byddai'n afresymol ei dychwelyd, gellir gwerthu'r eitem neu ei gwaredu mewn ffordd arall a rhoi unrhyw enillion i NACRO. Fodd bynnag, os yw'r carcharor wedi cael ei draddodi i'r carchar am beidio â thalu swm o arian, dylid defnyddio'r arian tuag at dalu'r swm hwnnw oni bai fod y carchar yn gwrthwynebu. Gweler PSI 01/2012 *Rheoli Materion Ariannol Carcharorion* ar gyfer ymdrin ag arian a anfonir i mewn drwy'r post. Gweler PSI 49/2011 *Gwasanaethau Cyfathrebu Carcharorion* ar gyfer ymdrin â gohebiaeth a anfonir at garcharor.
- 4.34 Mae'n bwysig bod trywydd archwilio yn cael ei gynnal wrth ymdrin ag unrhyw eiddo a anfonir i mewn i'r carchar, gan gynnwys lle bo eitemau wedi cael eu hanfon i mewn heb ganiatâd, er mwyn osgoi hawliadau dilynol bod eiddo wedi'i golli. Rhaid i'r trywydd archwilio hwn gynnwys achosion lle mae parseli'n cael eu dychwelyd i'r sawl a'u hanfonodd neu eu hanfon ymlaen i garchar dilynol.

- 4.35 Rhaid caniatáu i garcharorion anfon eiddo allan, a lleihau nifer yr eitemau o eiddo a gedwir yn eu meddiant, ac eiddo sy'n cael ei storio, drwy ymweliadau cymdeithasol neu drwy gyfleoedd eraill, yn amodol ar y rheolau sy'n bodoli ynglŷn â pha mor aml y gellir cael mynediad at eiddo a gedwir yn NDC Branston (gweler 'Y Ganolfan Ddosbarthu Genedlaethol (NDC), Branston'). Nid yw hyn yn gymwys i eitemau nad ydynt yn addas i'w hanfon allan (e.e. deunyddiau eithafwyr neu eitemau eraill sy'n cael eu hatafael'u'n barhaol sydd wedi cael eu nodi fel rhai i'w difrodi). Ni all staff gael gwared ag eiddo yn erbyn dymuniadau carcharor am fod y carcharor wedi mynd y tu hwnt i derfynau rheoli maint eiddo. Gweler 'Atafaelu a gwaredu eiddo'.
- 4.36 Rhaid rhoi cyfleoedd i hwyluso trefniadau i garcharorion anfon eiddo gwerthfawr allan yn ddiogel.
- 4.37 Rhaid caniatáu ac annog carcharorion sydd yn y broses o gael eu trosglwyddo i anfon eitemau uwchben y terfyn allan.

#### **Eiddo ar adeg trosglwyddo rhwng carchardai**

- 4.38 Gall trosglwyddo eiddo rhwng carchardai fod yn ffynhonnell anawsterau yn aml, a gall colli neu ddifrodi eitemau arwain at rwystredigaeth, gorbryder, dicter a cholli ymddiriedaeth yn staff y Gwasanaeth Carchardai. Dyma hefyd achos llawer o gwynion y mae angen i staff ymdrin â hwy. Po fwyaf effeithiol y gallwn ymdrin ag eiddo yn gyffredinol, ac wrth drosglwyddo, po fwyaf tebygol ydym o allu osgoi'r canlyniadau hyn.
- 4.39 Dim ond eiddo sy'n dod o fewn terfynau rheolaeth gyfeintiol, ac eitemau a ganiateir fel eithriadau rheolaeth gyfeintiol (gweler 'Rheolaeth gyfeintiol') fydd yn cael eu cludo gyda carcharor pan fydd yn cael ei drosglwyddo i sefydliad arall neu'n mynd i'r llys. Mae'n bwysig iawn felly bod y terfynau hyn yn cael eu parchu. Gweler 'Trosglwyddo eiddo y tu allan i derfynau rheolaeth gyfeintiol' ar gyfer ymdrin ag eiddo uwchben y terfyn.
- 4.40 Pan fydd carcharor yn symud i garchar arall, rhaid anfon ei holl gardiau eiddo ymlaen i'r sefydliad newydd gydag ef.
- 4.41 Rhaid rhoi eiddo sydd i'w drosglwyddo mewn bag eiddo wedi ei gau'n ddiogel â sêl ddiogelwch unigryw y sefydliad sydd â rhif unigryw. Ni ddylai bag bwysu mwy na 15kg.
- 4.42 Ar ôl cyrraedd y sefydliad sy'n derbyn, rhaid gwirio sêl pob bag eiddo yn erbyn y Cofnod Hebrwng Unigolyn. Gweler Fframwaith Polisi *Y Cofnod Hebrwng Unigolyn (PER)*.
- 4.43 Yn achlysurol, bydd carcharorion yn cyrraedd ar ôl cael eu trosglwyddo o sefydliad arall ag eitemau megis stereo fawr nad ydynt yn cael eu caniatáu yn rhestr cyfleusterau'r sefydliad sy'n derbyn ond a oedd yn cael eu caniatáu yn y sefydliad blaenorol. Rhaid i'r Llywodraethwyr ystyried yr eitemau hyn fesul achos unigol a phenderfynu a ddylid eu caniatáu ai peidio. Oni bai fod eitem yn cael ei hystyried yn risg i drefn dda, disgyblaeth, diogelwch eiddo a diogelwch personol, a/neu ei bod yn mynd dros y terfynau rheolaeth gyfeintiol, disgwylir y bydd y carcharor yn cael ei chadw yn ei feddiant. Mae hyn yn cydnabod y gallai'r carcharor fod wedi gwario arian ac y byddai'r eitem wedi cael ei chaniatáu yn y gorffennol. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith fod eitem wedi cael ei chaniatáu yn rhoi hawl i'r carcharor ei newid am eitem debyg. Rhaid i unrhyw eitem arall a brynir yn ei lle gydymffurfio â rhestr y cyfleuster lleol. Os oedd eitem yn cael ei chaniatáu yn y gorffennol, ond nad yw'n cael ei derbyn gan y carchar sy'n derbyn, mae'n bwysig egluro'r rheswm/rhesymau dros y gwahaniaeth hwn wrth y carcharor. Heb ddeall y rhesymau, gall

gwahaniaethau mewn ymarfer fod yn rhwystredig ac ymddangos yn fympwyol i garcharorion, a gall hynny roi parch tuag at staff a thegwch penderfyniadau yn y fantol.

- 4.44 Os oes gan garcharor symiau eithriadol o fawr o eiddo, ond eu bod yn dal o fewn y lefelau rheolaeth gyfeintiol (e.e. llawer o focsys o bapurau cyfreithiol), rhaid i'r carchar hysbysu contractwr y Gwasanaeth Hebrwng Carcharorion i'r Ddalfa (PECS) gan ddefnyddio adran sylwadau testun di-dâl y cais trosglwyddo wrth ofyn am y symudiad. Gall y contractwr PECS ddefnyddio'r wybodaeth hon wrth ystyried ei ddewis o gerbyd, a lle bo modd, defnyddio cerbyd mwy nag arfer. Nid yw'r opsiwn hwn ar gael lle mae eiddo y tu allan i derfynau rheolaeth gyfeintiol.
- 4.45 Rhaid i garcharorion ddal i gael mynediad at gymhorthion anabledd hanfodol/addasiadau rhesymol, ac ni ddylent gael eu hamddifadu ohonynt. Rhaid gwneud trefniadau cyn gynted ag y bo modd er mwyn sicrhau dilyniant. Lle mae'r eitemau yn eiddo i wasanaethau'r GIG neu awdurdod lleol, dylid ymgynghori â'r gwasanaethau hyn ynglŷn â sut y dylid sicrhau dilyniant, ac ni ddylid amddifadu carcharorion o eitemau hanfodol o'r fath ar unrhyw adeg. Mae ystyriaethau yn ymwneud â pherchnogaeth yn ail i sicrhau bod gan garcharor y cymhorthion anabledd y mae arno eu hangen bob amser. Gweler PSI 03/2016 *Gofal Cymdeithasol Oedolion* am ragor o wybodaeth ynglŷn â threfniadau trosglwyddo a rhyddhau i'r rhai hynny sy'n derbyn gofal a chymorth wrth gael eu trosglwyddo neu eu rhyddhau.
- 4.46 Rhaid i garcharorion trawsryweddol ddal i gael mynediad at eitemau sy'n angenrheidiol er mwyn iddynt allu mynegi eu rhywedd, ac ni ddylent gael eu hamddifadu ohonynt. Cyn trosglwyddo, dylid darparu copi o unrhyw Gytundeb Gwirfoddol mewn bodolaeth sy'n rhoi manylion am fynediad at eitemau o'r fath i'r carchar sy'n derbyn fel bod modd gwneud trefniadau i sicrhau dilyniant mynediad ar ôl trosglwyddo.

#### **Trosglwyddo eiddo y tu allan i derfynau rheolaeth gyfeintiol**

- 4.47 Rhaid i'r carchar sy'n rhyddhau fod yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw eiddo na all PECS ei gymryd yn unol â'i contract (h.y. eiddo sydd uwchben terfynau rheolaeth gyfeintiol) yn cael ei anfon ymlaen at y sefydliad sy'n derbyn cyn pen pedair wythnos ar ôl trosglwyddo oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn atal hyn.
- 4.48 Rhaid i'r carchar sy'n rhyddhau gadw cofnod o'r eiddo uwchben y terfyn sy'n cael ei anfon ymlaen. Bydd y cofnod yn nodi'r dyddiad anfon, y dull cludo a rhifau selio'r bag eiddo.
- 4.49 Rhaid i gost trosglwyddo eiddo o'r fath gael ei thalu gan y carchar sy'n rhyddhau ac ni ddylai gael ei phasio ymlaen i'r carcharor.
- 4.50 Rhaid i'r carchar sy'n rhyddhau hysbysu'r carchar sy'n derbyn pan fydd yr eiddo uwchben y terfyn yn cael ei anfon. Os disgwylir i eitemau gael eu danfon, mae llai o debygolrwydd y bydd problemau yn ymwneud â thrin a thrafod.
- 4.51 Ni all y carchar sy'n derbyn wrthod yr eiddo uwchben y terfyn sy'n cael ei anfon ymlaen. Rhaid annog y carcharor i anfon unrhyw eitemau sydd uwchben y terfyn allan. Os oes prinder lle storio yn lleol, dylai'r carchar sy'n derbyn ystyried anfon yr eitemau i NDC Branston. Fodd bynnag, ni all NDC Branston ddarparu cymorth i symud eiddo sydd uwchben y terfyn ymlaen o un sefydliad i un arall.

## **Rhyddhau**

- 4.52 Ac eithrio rhai absenoldebau dros dro byr, rhaid i'r holl eiddo sydd ym meddiant carcharorion, eitemau gwerthfawr ac eiddo sy'n cael ei storio'n lleol fynd gyda hwy pan fyddant yn cael eu rhyddhau (yn amodol ar lefelau rheolaeth gyfeintiol). Mae hyn yn cynnwys ar gyfer ymddangosiadau llys perthnasol.
- 4.53 Rhaid ymdrin ag eiddo ar gyfer carcharorion sy'n cael eu rhyddhau yn unol â PSI 72/2011 *Rhyddhau*.
- 4.54 Rhaid i unrhyw eiddo sydd uwchben y terfyn:
- Gael ei gadw'n ddiogel yn y carchar rhag ofn y bydd y carcharor yn dychwelyd (e.e. os bydd yn dychwelyd o'r llys yr un diwrnod); neu
  - Os nad yw'r carcharor yn cael ei ryddhau o'r llys a'i fod yn cael ei anfon yn ôl o'r llys i garchar gwahanol, rhaid anfon eiddo sydd uwchben y terfyn ymlaen at y sefydliad sy'n derbyn y carcharor yn unol â'r gofynion a nodwyd uchod dan 'Eiddo ar adeg trosglwyddo rhwng carchardai'; neu
  - Os bydd y carcharor yn cael ei ryddhau o'r llys, rhaid cadw unrhyw eiddo sydd uwchben y terfyn yn y sefydliad am gyfnod o 12 mis, oni bai ei fod yn cael ei hawlio'n gynharach gan y carcharor, a phryd hynny gellir ei waredu (gweler 'Atafaelu a gwaredu eiddo').
- 4.55 Ar ddiwedd eu cyfnod yn y carchar, rhaid gofyn i garcharorion lofnodi ffurflen ymwadiad i gadarnhau eu bod yn ymwybodol y bydd unrhyw eiddo sy'n cael ei adael ar ôl ddim ond yn cael ei gadw am gyfnod o 12 mis cyn cael ei waredu neu ei werthu. Disgwylir na fydd carcharorion yn gadael unrhyw eiddo ar ôl. Fodd bynnag, os bydd hyn yn digwydd a bod yr eiddo'n dal heb ei hawlio ar ôl 12 mis, gellir ei waredu. Rhaid cadw'r ffurflen ymwadiad gyda cherdyn eiddo'r carcharor gan ei fod yn darparu tystiolaeth ddogfennol pe bai iawndal yn cael ei hawlio yn ddiweddarach. Mae ffurflen enghreifftiol y gellir ei defnyddio at y diben hwn i'w gweld yn Atodiad D. Wrth lofnodi'r ffurflen ymwadiad ar adeg rhyddhau, dylid annog carcharorion i nodi a ydynt yn dymuno i eitem(au) o'u heiddo nad oes arnynt ei/eu heisiau mwyach gael ei/eu gwerthu neu ei/eu difrodi.
- 4.56 Cyn y dyddiad y mae carcharor i fod i gael ei ryddhau, rhaid i'r staff wirio a oes unrhyw eiddo'n cael ei gadw yn NDC Branston. Os oes unrhyw eiddo'n cael ei adael wedi'i storio yn NDC Branston gan nad yw'r carcharor yn dymuno ei gadw ar ôl cael ei ryddhau, rhaid i'r sefydliad hysbysu NDC Branston ynglŷn â'r dyddiad gwaredu cyn pen mis ar ôl rhyddhau'r carcharor. Mae hyn er mwyn sicrhau bod NDC Branston yn gallu trefnu i waredu 12 mis ar ôl i'r carcharor adael y ddalfa. Gweler 'Y Ganolfan Ddosbarthu Genedlaethol (NDC), Branston'.
- 4.57 Rhaid gwirio'r holl eiddo sy'n mynd gyda charcharorion sy'n gadael y carchar am unrhyw reswm, gan gynnwys ar gyfer ymddangosiadau llys neu wrth drosglwyddo i sefydliad arall, yn erbyn y cardiau cofnodi eiddo a chofnodi anghysondebau. Bydd arferion cofnodi clir a chywir yn helpu i osgoi cwynion ac ymgyfreitha posibl yn y dyfodol, yn ogystal â dangos ein safonau proffesiynol.
- 4.58 Dylai staff drafod gyda charcharorion a yw'n briodol dychwelyd allweddi tŷ. Er enghraifft, ai'r carcharor yw perchennog/tenant yr eiddo o hyd. Os y carcharor yw'r perchennog/tenant

o hyd, ni ddylai staff wrthod dychwelyd allweddi oni bai eu bod wedi derbyn tystiolaeth y byddant yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau anghyfreithlon a'u bod wedi trafod gyda'r heddlu.

### **Rhyddhau Troseddwyr sy'n Wladolion Tramor**

- 4.59 Os yw troseddwr sy'n wladolyn tramor yn agosáu at ei Ddyddiad Cymhwysedd ar gyfer y Cynllun Symud yn Gynnar ac nad yw HOIE wedi nodi nad oes ganddynt ddiddordeb pellach yn y troseddwr, dylid adalw unrhyw eiddo wedi'i storio sy'n cael ei gadw yn Branston. Bydd hyn yn sicrhau bod modd i eiddo fod ar gael pe bai'r carcharor yn cael ei symud ar fyr rybudd. Cyn gynted ag y bydd cyfarwyddiadau symud wedi'u gwneud, dylid hysbysu'r carcharor ynglŷn ag uchafswm pwysau bagiau'r awyren a'i annog i gael gwared ar unrhyw fagiau dros ben. Os na fydd y symud yn digwydd, gellir dal i storio'r eiddo. Yn ychwanegol at hyn bydd angen cael eiddo yn ôl o Branston ar gyfer carcharorion sydd i'w symud dan gynlluniau eraill. Mae 'Atafaelu a gwaredu eiddo' yn amlinellu sut y dylid ymdrin ag eiddo sy'n cael ei adael ar ôl gan unrhyw garcharor.

### **Eiddo sy'n cael ei storio'n lleol**

- 4.60 Rhaid i storio eiddo dros ben mewn lleoliad yn y carchar fod yn gam eithriadol neu dros dro a bydd yn digwydd dim ond pan fydd y Llywodraethwyr yn fodlon na ellir anfon eiddo dros ben allan mewn ffordd arall. Rhaid cadw eiddo wedi'i storio mewn bagiau wedi'u selio â seliau eiddo unigryw y sefydliad ei hun. Mae'n bwysig bod carcharorion yn deall sut a pham y gwneir penderfyniadau ynglŷn ag a ddylid caniatáu i eiddo gael ei storio, yn unol ag egwyddorion cyfiawnder gweithdrefnol.
- 4.61 Rhaid i eiddo dros ben carcharorion sydd â llai na chwe mis ar ôl cyn cael eu rhyddhau, a'r rhai sy'n cael eu cadw dan bwerau mewnfudo yn unig, gael ei gadw'n lleol.
- 4.62 Rhaid i unrhyw ddillad rhyddhau sy'n eiddo i garcharor gael eu storio'n lleol.

### **Y Ganolfan Ddosbarthu Genedlaethol (NDC), Branston**

- 4.63 Bydd eiddo nad yw'n cael ei gadw ym meddiant carcharor, sy'n cael ei anfon allan neu na ellir ei storio'n lleol, yn cael ei storio yn NDC Branston. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylai hyn ddigwydd, gan na ddylai carcharorion fynd dros y terfynau rheolaeth gyfeintiol, ac os ydynt yn mynd dros y terfynau hyn, rhaid defnyddio cyfleusterau storio lleol yn gyntaf. Ni fydd NDC Branston yn storio eiddo na ellir ei briodoli.
- 4.64 O ddyddiad gweithredu'r polisi hwn, ni chaniateir i garchardai anfon eiddo i Branston os bydd hynny'n golygu bod gan garcharor fwy na thri bocs wedi'u storio yno. Bydd eitem fawr iawn yn cael ei hystyried fel eitem sy'n cyfateb i un bocs. Ni ddylid mynd dros y terfyn hwn oni bai fod staff wedi archwilio pob opsiwn arall yn drylwyr iawn gyda'r carcharor, a'u bod o'r farn fod yr amgylchiadau mor eithriadol fel bod angen anfon rhagor o focs i gael eu storio.
- 4.65 Rhaid dilyn y weithdrefn hon pan anfonir eiddo dros ben i NDC Branston:
- Rhaid bagio, selio a phacio eiddo yn y blychau storio (eitem 1626), sydd ag uchafswm pwysau o 15kg;
  - Rhaid defnyddio'r seliau cywir, sydd â rhif cyfres 7 digid;
  - Rhaid i eitemau mawr iawn gael eu pacio, eu selio a'u labelu'n glir;

- Rhaid cynnwys y dyddiad y disgwylir y bydd y carcharor yn cael ei ryddhau er mwyn rhoi rhyw syniad i NDC Branston pryd y gallai'r eiddo fod yn gymwys i'w waredu os bydd yn dal heb ei hawlio 12 mis ar ôl rhyddhau'r carcharor. Fodd bynnag, os bydd eiddo'n dal yn Branston ar ôl rhyddhau carcharor, cyfrifoldeb y Llywodraethwr o hyd fydd hysbysu NDC Branston ynglŷn â'r dyddiad gwaredu ar gyfer yr eitem honno cyn pen 28 diwrnod ar ôl rhyddhau'r carcharor (gweler 'Rhyddhau').
- Diweddarau cardiau eiddo (gweler 'Cofnodi gwybodaeth')

4.66 Mae'r cyfyngiadau a ganlyn ar eitemau a anfonwyd i NDC Branston yn gymwys:

- Dim ond dillad sydd newydd gael eu golchi all gael eu cynnwys;
- Ni ellir cynnwys eitemau sydd â diraddiad cemegol neu dwf bacteriolegol.
- Ni ddylid cynnwys batris.
- Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol y cytunwyd arnynt gan y Llywodraethwr, ni ellir cael mynediad at eiddo cyn pen 12 mis ar ôl cael eu rhoi i'w storio.
- Ni ddylid cynnwys papurau cyfreithiol. Rhaid cadw'r rhain yn lleol.

4.67 Gellir anfon eiddo sydd wedi cael ei storio'n lleol am gyfnod o 28 diwrnod ar ôl i garcharor ddianc, gan gymryd nad yw wedi dychwelyd i'r ddalfa, i'r NDC ar gyfer storio hirdymor. Rhaid i'r eiddo hwn gael ei ddynodi ar gyfer gwaredu 12 mis o'r dyddiad dianc.

4.68 Wrth adalw eiddo, rhaid defnyddio ffurflen S&T 445. Mewn amgylchiadau eithriadol, os oes angen danfon ar frys, rhaid i'r sefydliad gysylltu â Thîm y Swyddfa Logisteg yn NDC Branston i drefnu danfon, gan ddefnyddio cludwyr os oes angen. Mae rhagor o ganllawiau ynglŷn â'r broses i'w dilyn wrth selio ac anfon eiddo i NDC Branston, gan gynnwys sut i gael y ffurflenni angenrheidiol, i'w gweld yn [Atodiad B](#).

4.69 Bydd eiddo sy'n perthyn i garcharor sydd wedi cael ei ryddhau ddim ond yn cael ei anfon gan NDC Branston i'w sefydliad olaf i'w gasglu, ac ni fydd yn cael ei ddanfon i unrhyw gyfeiriad preifat. O ganlyniad rhaid i bob cais i gael eiddo yn ôl ddod o sefydliad. Fel rhan o wiriadau rhyddhau, dylid gofyn i garcharorion a oes ganddynt eiddo yn Branston fel bod modd ei ddychwelyd i'r carchar mewn da bryd.

4.70 Bydd eiddo a anfonir i NDC Branston yn cael ei gadw yno ar ran Llywodraethwr sefydliad cyfredol y carcharor. Os bydd carcharor yn cael ei drosglwyddo, bydd gwarchodaeth yr eiddo yn symud i Lywodraethwr y carchar newydd.

4.71 Ni fydd staff yn NDC Branston yn agor eiddo, a bydd ymchwilio i unrhyw gwynion yn ymwneud â cholli neu ddifrod, ac unrhyw hawliadau iawndal, yn rhan o gyfrifoldeb y sefydliad sy'n adalw'r eiddo.

### **Clirio llety / cell**

4.72 Gall clirio llety arwain at broblemau penodol wrth ymdrin ag eiddo carcharorion. O ganlyniad mae'n bwysig bod yn ofalus iawn. Po fwyaf y gellir cynnwys carcharorion yn ddiogel yn y broses hon, po gyflymaf y gellir sicrhau bod llety yn ddiogel ac yna'i wagu, a chadw cofnodion cywir, a pho fwyaf effeithiol y bydd y broses hon yn gweithio. Mae gweld bod eu heiddo'n cael ei drin yn briodol ac yn ofalus yn fwy tebygol o helpu carcharorion i weld bod y broses yn deg.

4.73 Os bydd carcharor yn cael ei hysbysu ynglŷn â threfniadau symud, dylid rhoi digon o amser iddo bacio ei eiddo ei hun lle bo modd.



- 4.74 Os nad yw'n bosibl i garcharor bacio ei eiddo, a bod y llety'n un meddiannaeth unigol, rhaid diogelu'r llety cyn gynted ag y bo'n cael ei wagu. Gall diogelu llety byw a rennir ar unwaith fod yn fwy cymhleth. Lle bynnag y bo modd, dylai hyn ddigwydd, ond mewn unrhyw achos cyn gynted ag y bo modd.
- 4.75 Rhaid i eiddo sydd yn y fan a'r lle gael ei wirio yn erbyn cerdyn eiddo'r carcharor a'i gofnodi ar y Dystysgrif Clirio Cell (F2056J) gan ddau aelod o staff cyn gynted ag y bo modd. Ni ddylid defnyddio fersiynau lleol o dystysgrifau clirio cell. Rhaid gwneud nodyn o unrhyw eitemau a ddifrodwyd neu unrhyw eitemau sy'n cael eu difrodi wrth glirio. Rhaid cadw'r Dystysgrif Clirio Cell gyda'r cerdyn eiddo perthnasol.
- 4.76 Mewn llety a rennir rhaid i'r carcharor sydd ar ôl fod yn bresennol fel arfer er mwyn dweud beth sy'n eiddo iddo ef. Os nad yw'r carcharor ar gael am ychydig, dylid ystyried aros nes y gall fod yn bresennol a diogelu'r llety tan hynny.
- 4.77 Rhaid cofnodi unrhyw anghysondebau rhwng eitemau a restrwyd ar y Dystysgrif Clirio Cell ac ar gerdyn eiddo'r carcharor ac ymchwilio iddynt. Ac eithrio eitemau darfodus, rhaid rhoi'r eiddo mewn bagiau eiddo a'u selio.
- 4.78 Os bydd carcharor yn dychwelyd i'r sefydliad yn ddiweddarach, neu i lety arferol o'i fewn, rhaid agor sêl y bagiau ym mhresenoldeb y carcharor a dylid gofyn i'r carcharor wirio'r cynnwys. Rhaid cofnodi unrhyw anghysondebau ac ymchwilio iddynt. Mae hyn hefyd yn gymwys pan fydd y carcharor yn cael ei symud i sefydliad arall.
- 4.79 Os yw'r gell yn cael ei chlirio oherwydd bod carcharor wedi dianc neu wedi marw, rhaid tynnu sylw'r awdurdod priodol at unrhyw eitemau a allai fod yn berthnasol i'r ymchwiliad yn gyntaf. Yn dilyn marwolaeth yn y ddalfa, a nes bydd yr heddlu wedi cyrraedd, rhaid selio'r gell a rhaid gadael yr holl eiddo yn y fan a'r lle fel tystiolaeth, ac ni ddylid symud na bagio dim nes bydd yr heddlu'n rhoi caniatâd.
- 4.80 Mae angen cofnodi unrhyw eiddo sy'n cael ei gadw gan yr heddlu fel tystiolaeth a hysbysu'r ysgutor neu'r perthynas agosaf. Ceir gwybodaeth ynglŷn ag ymdrin ag eiddo carcharorion ymadawedig yn PSI 64/2011: *Rheoli Carcharorion y mae Perygl iddynt Achos Niwed iddynt hwy eu Hunain, neu i Eraill, a Charcharorion y mae Perygl iddynt gael eu Niweidio gan Eraill.*

#### **Atafaelu a gwaredu eiddo**

- 4.81 Mae'r Llywodraethwr wedi'i awdurdodi i atafaelu'r eitemau a ganlyn yn barhaol ac i wneud trefniadau yn dilyn hynny i'w difrodi mewn ffordd ddiogel a phriodol yn yr amgylchiadau a ganlyn:
- os byddai'r ffaith fod yr eitem ym meddiant carcharor yn drosedd ynddo'i hun (er enghraifft, cadw cyffuriau a reolir neu sylweddau seicoweithredol ac eitemau y gellir eu cysylltu â masnachu a/neu gamdefnyddio cyffuriau); neu
  - os yw'r eitem ei hun yn beryglus (er enghraifft dyfais ffrwydrol wedi'i pharatoi), ac na ellid o ganlyniad ei storio'n ddiogel; neu
  - os byddai storio'r eitem yn beryglus i iechyd.
- 4.82 Yn unrhyw un o'r digwyddiadau hyn, mae angen egluro wrth y carcharor sut y mae'r eitem honno'n dod dan un o'r tri chategori hyn. Rhaid i staff hefyd ystyried unrhyw faterion yn

ymwneud â dyled/diogelwch carcharor a allai fodoli os yw carcharor wedi bod ag eitemau penodol yn ei feddiant.

- 4.83 Yn ehangach, mae Adran 42(A) o Ddeddf Carchardai 1952 yn rhoi manylion am yr eitemau y mae gan Lywodraethwyr hawl i'w dinistrio neu gael gwared arnynt mewn ffordd arall, sef:
- Eitem y deuir o hyd iddi ym meddiant carcharor er nad oes ganddo hawl i'w chael yn ei feddiant; neu
  - Eitem y deuir o hyd iddi y tu mewn i'r carchar, neu mewn cerbyd hebrwng i'r carchar, os yw perchennog yr eitem yn garcharor nad oes ganddo hawl i gael yr eitem yn ei feddiant neu os na ellir canfod pwy yw'r perchennog.
- 4.84 Gweler Atodiad E am fap proses a diffiniadau ar gyfer gwybodaeth ynglŷn â pha eiddo y gellir ei waredu.
- 4.85 Os yw Llywodraethwyr yn penderfynu cael gwared ar eiddo heb ei awdurdodi neu eiddo na ellir ei briodoli a gafodd ei ddarganfod neu ei atafaelu ar ôl 26 Mawrth 2015, rhaid cadw eiddo o'r fath yn y carchar am o leiaf dri mis ar ôl iddo gael ei ddarganfod cyn cael gwared arno. Yn ystod y cyfnod hwn, rhaid i garcharor allu gwneud sylwadau ynglŷn â sut yr ymdrinnir â'r eiddo a rhaid ei hysbysu ynglŷn â'r dyddiad y bwriedir cael gwared arno. Yr eithriad i'r rheol tri mis hon yw lle byddai parhau i storio yn achosi perygl i iechyd neu lle byddai meddiant fel arall yn arwain at drosedd neu os yw'r eitem ei hun yn beryglus. Ni ddylid dinistrio neu waredu eitemau tra mae anghydfod heb ei ddatrys ynglŷn â sut y dylid ymdrin â hwy (e.e. os yw'r mater yn dal i gael ei ystyried drwy'r system gwynion). Dylai'r staff gadarnhau gyda'r carcharor nad yw'r mater wedi cael ei gyfeirio at yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf ac ni ddylid gwaredu'r eiddo nes bydd unrhyw ymchwiliad gan yr Ombwdsmon wedi'i gwblhau. Rhaid cadw cofnod o'r eitemau ond ni ddylid ychwanegu'r eitemau at gerdyn eiddo carcharor nes bydd unrhyw anghydfod ynglŷn â pherchnogaeth wedi'i ddatrys o blaid y carcharor.
- 4.86 Gellir dinistrio eitemau perthnasol (gweler Atodiad E am ddiffiniadau) a atafaelwyd cyn 26 Mawrth 2015 ar unwaith.
- 4.87 Dan Reol Carchardai 43 (4) a Rheol Sefydliadau Troseddwyd Ifanc 48 (3), rhaid cadw unrhyw eiddo heb ei hawlio sy'n perthyn i garcharor nad yw yn y ddalfa mwyach am gyfnod o 12 mis ar ôl iddo gael ei ryddhau'n barhaol, neu ar ôl iddo ddianc neu farw. Os bydd yr eiddo'n dal heb ei hawlio ar ôl 12 mis, gellir ei waredu. Caniateir gwaredu o fewn y 12 mis lle byddai storio eitem yn beryglus i iechyd neu lle byddai meddiant fel arall yn arwain at drosedd neu os yw'r eitem ei hun yn beryglus.
- 4.88 Yn ogystal â'r gofynion dan 'Clirio llety/cell', dylid cynnig yr holl eiddo (gan gynnwys eitemau gwerthfawr) sy'n eiddo i garcharor sy'n marw yn y ddalfa i'w berthynas agosaf, oni bai fod anghydfod posibl ynglŷn â phwy sydd â hawl i hyn. Os oes anghydfod dylid gofyn i'r Crwner am gyngor. Rhaid cadw eiddo sy'n perthyn i garcharorion heb berthynas agosaf wedi'i nodi yn y carchar a rhaid i'r staff gymryd camau rhesymol i geisio canfod pwy yw'r berthynas agosaf. Dylid gwaredu neu werthu'r holl eiddo nad yw'n cael ei hawlio gan berthynas agosaf carcharor pan fydd 12 mis wedi mynd heibio ers marwolaeth y carcharor neu gan garcharorion pan fydd 12 mis wedi mynd heibio ers i'w cyfnod yn y ddalfa ddod i ben.

- 4.89 Yn achos eitemau a anfonwyd at garcharor sydd wedi'i golffarnu, os na wyddys pwy sydd wedi eu hanfon, gellir eu gwerthu neu eu gwaredu mewn ffordd arall yn unol â pharagraff 4.33 uchod.
- 4.90 Rhaid i elw net unrhyw werthiant eiddo heb ei awdurdodi neu na ellir ei briodoli, neu unrhyw eitemau eraill a werthir yn unol â'r gofynion uchod, gael ei roi i NACRO.
- 4.91 Os yw unrhyw eitemau'n cael eu gwaredu, rhaid cadw cofnodion i ddarparu manylion yr eitemau, ble cawsant eu canfod a'r dyddiad a'r rhesymau dros eu gwaredu.

#### **Trosglwyddo eiddo (rhoi rhodd) rhwng carcharorion**

- 4.92 Ni ddylid caniatáu i garcharorion drosglwyddo eiddo sydd yn eu meddiant i berchnogaeth carcharorion eraill oni bai fod y Llywodraethwr yn fodlon bod trosglwyddiadau o'r fath yn wirfoddol ac am resymau derbyniol (e.e. nid o ganlyniad i fwlio, dyled carcharor neu yn gyfnewid am eitemau anghyfreithlon) ac na fyddant yn tanseilio'r cynllun cymhellion neu drefn dda neu ddisgyblaeth. Lle cymeradwyir trosglwyddo eitem o eiddo, rhaid cofnodi'r manylion yn glir ar y cardiau eiddo perthnasol. Rhaid egluro unrhyw drefniadau lleol ar gyfer trosglwyddo eiddo yn glir wrth garcharorion.

#### **Cwynion a hawliadau iawndal**

- 4.93 Rhaid ymchwilio i bob cwyn yn unol â'r Fframwaith Polisi *Cwynion Carcharorion* a'r Llawlyfr Cyllid. Ni fydd NDC Branston yn ymchwilio nac yn prosesu cwynion, ond bydd yn cynorthwyo swyddog ymchwilio sefydliad drwy ddarparu ymatebion i ymholiadau penodol perthnasol.
- 4.94 Rhaid i Lywodraethwyr sicrhau bod cwynion ac anghydfodau yn ymwneud ag eiddo yn cael eu hymchwilio yn drylwyr ac yn effeithlon, a bod carcharorion yn cael cynnig iawndal priodol os yw eitemau wedi cael eu colli neu eu difrodi. Dylid gwneud pob ymdrech i ddatrys problemau drwy gamau amrywiol y broses gwynion, gan gynnwys yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf, ac osgoi gwariant diangen ar hawliad ymgyfreitha yn y dyfodol. Mae egwyddorion cyfiawnder gweithdrefnol (gweler 'Canllawiau' am fwy o wybodaeth) yn gymwys yma o ran sut y mae penderfyniadau/canlyniadau'r ymchwiliad yn cael eu cyfathrebu a'u hegluro wrth y carcharor.
- 4.95 Os yw carcharorion wedi cael eu trosglwyddo, rhaid i sefydliadau gysylltu â'i gilydd er mwyn sicrhau bod cwynion o'r fath yn cael eu hymchwilio a'u hateb yn effeithlon ac yn gyflym heb roi beichiau diangen ar garcharor sydd wedi cael ei drosglwyddo.
- 4.96 Mewn achosion lle mae'r sefydliad yn gyfrifol am golli eiddo'r carcharor, neu ddifrod i'r eiddo, rhaid rhoi ad-daliad teg i'r carcharor ynghyd ag ymddiheuriad. Ni all y ffaith fod carcharorion yn llofnodi ymwadiad, eu bod yn cadw eiddo gan wybod beth yw'r risg, esgusodi'r carchar rhag talu iawndal os yw'n amlwg bod y carchar ar fai. Mae enghraifft gyffredin o hyn yn ymwneud â cholli dillad personol neu ddifrod iddynt yn ystod y broses o olchi dillad. Nid yw'n rhesymol disgwyl i'r carcharor ysgwyddo unrhyw golled neu ddifrod os yw wedi rhoi'r dilledyn i gael ei olchi yn nhŷ golchi'r carchar. Rhaid i unrhyw iawndal a delir ddod gan y carchar sy'n gyfrifol am y golled neu'r difrod, yn hytrach nag yn awtomatig gan y carchar lle gwneir y gŵyn.
- 4.97 Os yw ad-daliad neu ddyfarniadau iawndal lleol yn cael eu hystyried ar gyfer eitemau sydd wedi cael eu colli neu eu difrodi, dylid gofyn i garcharorion ddangos tystiolaeth o werth yr eitem (e.e. derbynneb). Os nad yw hyn yn bosibl, dylai llywodraethwyr gymharu cost prynu

eitem(au) newydd gan gyflenwyr sydd ar gael i garcharorion. Os nad oes cyflenwyr o'r fath, gellir gwneud chwiliad ar-lein ar wefannau manwerthwyr y stryd fawr. Yn y naill achos a'r llall, dylid gwneud addasiadau ar gyfer oedran/traul ond mae angen i'r cynnig fod yn un teg.

- 4.98 Rhaid i'r staff ddefnyddio barn briodol ynglŷn ag iawndal ar gyfer eitemau wedi'u brandio a/neu eitemau gwerthfawr. Er enghraifft, mae'n llai rhesymol i ddisgwyl i garcharor allu darparu prawf prynu ar gyfer brandiau nodweddiadol o eitemau dillad chwaraeon ac a allai fod wedi bod yn eu meddiant ers peth amser. Mewn achosion o'r fath, byddai'n briodol i dalu iawndal ar sail tybiaeth bod yr eitem yn un go iawn. Fodd bynnag, ar gyfer eitemau mwy costus (e.e. topiau dylunwyr, watshis brand moeth) mae'n llawer mwy rhesymol disgwyl y bydd carcharor wedi cadw, ac y bydd yn gallu darparu, prawf prynu neu wybodaeth ynglŷn â dilysrwydd yr eitem. Os yw carcharor yn methu â gwneud hynny ar gyfer rhai eitemau, dylid darparu iawndal ar gyfer cost prynu eitem gyfwerth safonol newydd (e.e. watsh neu dop safonol) gan gyflenwr sydd ar gael i garcharorion.
- 4.99 Rhaid credydu iawndal am eitemau a gollwyd neu a ddifrodwyd i gyfrif 'Arian Parod Preifat' y carcharor. Os bwriedir prynu eitemau yn eu lle, gellir gwneud y trafodiad debyd o'r cyfrif hwn hefyd. Caniateir hyn dan yr 'amgylchiadau eithriadol' a amlinellwyd yn PSI 01/2012 *Rheoli Materion Ariannol Carcharorion* ac mae'n mynd dros y terfynau uchaf ar gyfer gwariant carcharorion a bennwyd dan y cynllun Cymhellion.

## **5. Canllawiau**

### **Ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth**

- 5.1 Pan fydd pobl yn teimlo bod prosesau'n cael eu cymhwyso'n deg ac yn gyfiawn, bydd ganddynt fwy o hyder ac ymddiriedaeth mewn pobl sydd ag awdurdod, byddant yn gweld pobl sydd ag awdurdod yn fwy teg, a byddant yn fwy tebygol o dderbyn ac ufuddhau (neu ymrwymo i ufuddhau) i benderfyniadau a rheolau, a chydymffurfio a chydweithredu ag awdurdod. Mae hyn yn wir hyd yn oed os nad yw canlyniad y penderfyniad neu'r broses o'u plaid. Mae angen cyfiawnder gweithdrefnol hefyd er mwyn sicrhau bod carcharorion yn cael eu trin â pharch a gwella canlyniadau o ran eu bywyd bob dydd, oherwydd mae'n cael effaith sylweddol ar ganlyniadau fel camymddwyn a lles seicolegol yn y ddalfa.
- 5.2 Pedair egwyddor cyfiawnder gweithdrefnol, y mae angen iddynt fod yn bresennol er mwyn i rywun deimlo ei fod yn cael ei drin yn deg, yw llais, niwtraliaeth, parch a chymhellion dibynadwy. Gall proses/polisi eiddo a'i weithredu ymgorffori'r egwyddorion hyn yn fwriadol yn y ffyrdd a ganlyn, fel bod gan garcharorion fwy o barch ac ymddiriedaeth yn y broses, a'u bod yn fwy tebygol o dderbyn y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud (hyd yn oed os yw'r rhain yn anffafriol iddynt) yn y ffyrdd a ganlyn:

**Llais:** Rhoi cyfle i bobl gyflwyno eu hochr hwy o'r stori, cael rhywun i wrando arnynt a chael gofyn cwestiynau.

- Cael enw unigolyn y gallant fynd ato i ofyn cwestiynau am bolisi neu benderfyniadau sy'n ymwneud ag eiddo.
- Gofyn am adborth er mwyn gwella'r broses.
- Defnyddio iaith syml y gall pawb ei deall.

- Egluro sut y gall yr unigolyn apelio neu gwyno am benderfyniadau eiddo os yw'n dymuno.

**Niwtraliaeth:** Bod yn dryloyw ac yn agored ynglŷn â sut mae'r rheolau'n cael eu cymhwyso, gan egluro penderfyniadau a dangos bod penderfyniadau'n seiliedig ar egwyddorion ac yn ddiduedd.

- Egluro sut mae'r broses yn gweithio, y rheolau penodol am eiddo a fframiau amser tebygol.
- Systemau i fonitro a sicrhau cysondeb penderfyniadau i bobl sydd yn yr un sefyllfa.
- Egluro pam y mae penderfyniadau wedi cael eu gwneud, a beth wnaeth ddylanwadu ar hyn neu a gafodd ei ystyried.
- Egluro sut y mae'r penderfyniad yn gyson â'r ffordd y mae pobl eraill yn cael eu trin.

**Parch:** Trin pobl â pharch, cymryd eu problemau o ddifri, bod yn gwrtais, a pharchu eu hawlau.

- Gwaith papur a pholisi syml a hygyrch er mwyn hwyluso dealltwriaeth, a sicrhau bod cymorth ar gael.
- Systemau i fonitro a sicrhau bod eiddo a phroblemau yn ymwneud â hyn yn cael eu prosesu'n fuan.
- Llinellau atebolrwydd clir.
- Defnyddio tôn gwrtais a pharchus wrth gyfathrebu penderfyniadau.
- Trin eiddo yn ofalus, ac ymddiheuro os oes difrod wedi'i wneud iddo.
- Bod yn sensitif os nad yw penderfyniadau fel roedd yr unigolyn wedi gobeithio.

**Cymhellion dibynadwy:** Bod yn ddidwyll ac yn ofalgar, yn onest am gymhellion, gwrando a chymryd materion o ddifri, a thrio gwneud beth sydd orau i bawb.

- Egluro pwrpas y polisi a'r rheolau eiddo, er enghraifft pam y mae terfynau cyfeintiol wedi'u gosod fel y maent, a pham na chaniateir rhai eitemau, ac nad yw hyn yn fympwyol.
- Egluro sut y mae'r penderfyniadau hyn yn sicrhau'r budd gorau i bobl.
- Egluro sut y gwneir penderfyniadau diduedd, gan bwy, ar ba sail, a pham.
- Dangos/cyfathrebu didwylledd a gofal.
- Cydnabod a dangos empathi o ran sut y mae penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ynglŷn ag eiddo, a sut y caiff eiddo ei drin gan staff/y carchar, yn gallu effeithio ar bobl.

- 5.3 Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech gael unrhyw gymorth yn ymwneud â chyfiawnder gweithdrefnol, anfonwch ebost i: [proceduraljusticeenquiries@justice.gov.uk](mailto:proceduraljusticeenquiries@justice.gov.uk)

### **Pwynt cyswllt ar gyfer materion eiddo**

- 5.4 Mae rhai carchardai wedi gweld ei bod yn fuddiol dynodi aelod o'r staff i weithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer eiddo. Gall hyn fod yn ddefnyddiol iawn wrth gysylltu â'r Ombwdsmon Carchardai a Phrawf a Byrddau Monitro Annibynnol, a hefyd lle mae materion yn codi pan fydd carcharor yn cael ei drosglwyddo o un sefydliad i un arall.

### **Rheoli eiddo sy'n cael ei storio'n lleol**

- 5.5 Cynghorir staff i wirio eiddo sy'n cael ei storio'n lleol yn y carchar yn rheolaidd. Wrth ymdrin ag eiddo o'r fath, gall fod yn fuddiol lle bo modd i grwpio eitemau'n briodol (e.e. nodi'n glir pa eitemau fydd yn cael eu gwaredu os na fydd neb wedi eu hawlio 12 mis ar ôl i'r carcharor gael ei ryddhau). Bydd gwiriadau rheolaidd yn sicrhau wedyn na fydd gormodedd o eiddo'n crynhoi.

## CANLLAWIAU AR GWBLHAU CARDIAU EIDDO CARCHARORION Atodiad A

### Bydd cerdyn eiddo wedi'i gwblhau'n dda yn gwneud y canlynol:

- + Rhoi manylion ar bob eiddo fel y nodir o dan 'Cofnodi Gwybodaeth'
- + Rhoi manylion am unrhyw newidiadau i'r eitem o eiddo (e.e. os yw'r eitem wedi ei ddifrodi wrth gyrraedd, wedi bod ar goll, wedi bod mewn storfa o'r blaen ond bellach yn cael ei ganiatáu ym meddiant carcharor).
- + Dangos ysgrifen clir a darllenadwy.
- + Wedi dyddio pob cofnod.
- + Cael ei arwyddo gan yr aelod o staff sy'n gyfrifol, gyda'r enw wedi ei brintio
- + Rhannau priodol wedi'u llofnodi gan y carcharor i ddangos ei fod yn cytuno gyda'r disgrifiad. Pan na roddir cyfle i'r carcharor arwyddo, gall arwain at anghydfod.

### Bydd cerdyn eiddo wedi'i gwblhau'n dda yn osgoi:

- Ceisio ffitio gormod o wybodaeth i mewn i un blwch.
- Tynnu sylw at neu dicio eitemau heb unrhyw nodiadau clir a chyfatebol ar y dudalen nodiadau. Gall cardiau ddod yn aneglur iawn lle mae nifer o garchardai yn ticio ac yn amlygu eitemau. Gall fynd yn ddryslyd yn gyflym o ran beth mae'r ticio a'r amlygu yn ei olygu ond hefyd pa garchar sydd wedi gwneud hyn.
- Cyfeirio at eitemau ar y cerdyn sydd wedi eu hamlygu mewn lliw penodol neu wedi eu marcio gyda tic mewn lliw penodol. Yn gyffredinol, mae cardiau eiddo yn cael eu llungopio mewn du a gwyn ac mae'r cyfeiriadau at liwiau a ddefnyddir gan staff ar y cardiau yn mynd yn ddiystyr.
- Cyfeirio at eitemau yn gyffredinol iawn (e.e. 'bag o eiddo wedi'i anfon i mewn' neu 'bag o eiddo o'r sefydliad blaenorol'). Mae angen rhestru pob eitem wrth ei derbyn.

- + Rhoi gwybodaeth am bob eitem (e.e. ar gyfer CD, yr arfer gorau yw rhestru enw'r artist a'r albwm), yn hytrach na dweud 'Nifer o CDs.'
- + Defnyddio'r codau trafodiad/derbyn/statws yn unig a argraffwyd ar y cerdyn eiddo. Lle gallai codau eraill orfod cael eu defnyddio, dylid esbonio'r rhain yn glir ar y cerdyn.
- + Osgoi defnyddio 'amryliw' lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Er enghraifft, cyfeiriwch at bâr o esgidiau rhedeg fel 'glas/gwyn' yn hytrach nag amryliw. Fel arall, gall fod yn anodd gwybod pa eitem o eiddo y cyfeirir ato
- + Recordio eitemau brand fel (e.e.) 'Pâr o esgidiau rhedeg wedi'u marcio â logo Nike' yn hytrach na 'Pâr o esgidiau rhedeg Nike', gan na fydd staff yn gallu asesu dilysrwydd unrhyw eiddo brand.
- + Yn achos eiddo gwerthfawr, cofnodi eitemau fel (e.e.) 'Modrwy fetel wen' yn hytrach na 'Modrwy arian'.

## Cyfyngiadau Eiddo

### Gwybodaeth ar gyfer Carcharorion

Rhaid i'ch eiddo ffitio mewn dau focs safonol.  
Mae'r cyfyngiad hwn am resymau diogelwch.

Mae rhestr fach o bethau y gallwch eu cael nad oes angen iddyn nhw ffitio yn y bocsys (fel papurau cyfreithiol ac offeryn cerddorol - gyda chytundeb).


Os nad yw eich eiddo yn ffitio i'r ddau focs, yna bydd angen i chi drosglwyddo neu anfon pethau at deulu neu ffrindiau i ofalu amdany'n nhw. Os nad ydych chi'n gwneud hyn, efallai bydd yr eitemau'n cael eu hanfon i'w storio ac ni fyddwch yn gallu cael gafael arny'n nhw am 12 mis o leiaf.

Os byddwch yn symud i garchar arall, dim ond yr eiddo yn y ddau focs fyddwch chi'n gallu mynd gyda chi, yn ogystal â phethau fel papurau cyfreithiol. Gallwch hefyd gael bocsy llai ar gyfer pethau fel siampŵ a bwyd.

Bydd angen i unrhyw beth arall ddilyn yn nes ymlaen neu efallai y bydd yn cael ei anfon i ffwrdd i'w storio.

**Mae eich eiddo yn bwysig i ni.**

**Y ffordd orau o ofalu amdanynt yw cadw at y cyfyngiadau.**





DATGANIAD AC YMWADIAD GWAREDU

CARCHAR/SEFYDLIAD .....

Rhif Carchar /  
PNOMIS

\* Dileer fel bo'n briodol

\* Yr wyf i ..... yn cydnabod fy mod wedi cael fy hysbysu y bydd y staff, [yn unol â Rheol 43 (4) o Reolau Carchardai 1999 / Rheol 48 (3) o Reolau Troseddwyd Ifanc 2000] yn gwaredu neu'n gwerthu unrhyw eiddo wedi'i storio sy'n perthyn i mi ac sy'n dal heb ei hawlio ar ôl 12 mis o'r dyddiad yr wyf yn cael fy rhyddhau'n barhaol os na fydd wedi cael ei adalw yn ystod y cyfnod hwn

\* Ni fyddaf yn dychwelyd i hawlio'r eiddo wedi'i storio sy'n perthyn i mi a gofynnaf i chi ei werthu neu ei ddinistrio fel y bo'n briodol.

Llofnod ..... Dyddiad.....

Manylion y swyddog

Llofnod..... Enw.....

Swydd ..... Dyddiad.....

*DS Ar ôl i'r ffurflen hon gael ei llenwi dylid rhoi copi ohoni i'r carcharor a rhoi'r copi gwreiddiol ynghlwm wrth gofnod eiddo'r carcharor rhag ofn y bydd yr archwilwyr eisiau ei weld.*

## **SUT I SELIO EIDDO A LLENWI'R 444 I'W ANFON I NDC BRANSTON**

Mae'r 444 yn aml-set o ffurflenni sy'n cael eu defnyddio yn NDC Branston fel dogfen fewnbwn.

Mae'n bwysig sicrhau bod y manylion yn cael eu rhoi i mewn yn gywir a'u bod wedi'u hysgrifennu'n glir mewn priflythrennau. Ar ôl llenwi'r ffurflenni, anfonwch y ddau gopi uchaf yn ôl gyda'r gyrrwr sy'n casglu'r nwyddau.

### **I Ble Mae'r Nwyddau'n Mynd**

NDC Branston.

### **Sefydliad sy'n eu Hanfon**

Rhowch enw'r sefydliad yma (1a).

### **Cod y cyfrif**

Dyma'r cod tri digid a ddefnyddir gan NDC i adnabod pob sefydliad (nid y cod tair llythyren sydd i'w weld ar y sêl). Os nad ydych yn gwybod beth yw'r cod hwn cysylltwch ag NDC a gall rhywun yno ddweud wrthyh (1b).

### **Rhif y carcharor, Enw'r carcharor**

Rhowch y manylion perthnasol yn gywir (1c) a pheidiwch â chymysgu carcharorion ar unrhyw daflen unigol.

### **SOC**

Dyma'r Rhif Derbyn Nwyddau a roddwyd i chi pan wnaethpwyd y trefniadau gyda'r NDC cyn i'r nwyddau gael eu casglu (1d). Nid oes uchafswm ar gyfer nifer y Taflenni Mewnbwn Eiddo Troseddwy (444) ar gyfer pob SOC ond mae angen rhoi'r rhif SOC ar bob taflen (ni fydd gwir swm yr eiddo yn fwy na deugain bocs).

### **Rhifau Sêl**

Rhowch y rhif sêl saith digid (gan gynnwys unrhyw sero) sy'n cael ei ddefnyddio i selio'r bocs ei hun; nid oes angen y sêl fewnol ar y 444 nac unrhyw ddisgrifiad o'r cynnwys gan nad yw Branston yn agor y bocsys (1e). Os defnyddir dwy sêl allanol ar eitem fawr iawn dylid defnyddio'r ddwy sêl. Gallwch roi cynifer â naw rhif sêl ar y 444 ond dim ond

un ar bob llinell, oni bai fod dwy sêl wedi'u defnyddio ar eitem fawr iawn (os hynny dylid rhoi'r ddwy sêl ar yr un llinell).

### **Dim ond un carcharor i bob 444**

#### **Nifer Unedau**

Nodwch faint o focsys sydd wedi cael eu bwcio ar y daflen 444 benodol honno.

#### **Gwaredu**

Os yw'r eiddo i'w waredu, mae angen i'r 444 gynnwys enw swyddog awdurdodi wedi'i brintio, ei lofnod a dyddiad gwaredu (**1f**). Y dyddiad gwaredu fydd y dyddiad y dylai'r gwaredu ddigwydd. Os bydd unrhyw un o'r rhain heb ei gofnodi'n gywir bydd yr eiddo'n cael ei ddychwelyd yn awtomatig i chi i'w gywiro. Os oes llai na chwe mis tan ddyddiad gwaredu'r eiddo ni fydd yn cael ei dderbyn i'r NDC; bydd yn rhaid iddo gael ei waredu'n lleol a bydd yn cael ei ddychwelyd i'r sefydliad.

#### **Pwyntiau eraill i'w hystyried**

Dylid defnyddio'r seliau cywir ar y bocs priodol neu'r eitem fawr iawn sydd wedi'i bagio. Mae'r wybodaeth hon ar ST 129/2005 ac mae angen ei dilyn.

Mae angen i'r seliau ddod i lawr o'r twll ar ymyl flaen y bocs eiddo (Gweler Ffig 1) â'r rhif yn wynebu at allan fel bod modd gweld y seliau pan fydd y bocsys yn cael eu storio ar ben ei gilydd (mae Branston yn storio'r bocsys chwech ar ben ei gilydd â phedwar tŵr ar bob palet, â'r seliau'n wynebu at allan). Dylid rhoi label enw a rhif y carcharor ar y tu blaen ar yr un ochr â rhif y sêl. Dylid bod yn ofalus wrth bacio a chludo'r bocsys gan y bydd unrhyw rai sy'n cyrraedd Branston â seliau wedi eu torri yn cael eu gwrthod.


Mae gan y bocsys rheolaeth gyfeintiol, eitem 1626, uchafswm pwysau o 15kg ac ni ddylid eu pacio fel eu bod yn anodd i'w cau ac o ganlyniad yn colli eu siâp. Dylech ddefnyddio bocs arall gan y bydd hyn yn arbed amser yn yr hirdymor a gallai olygu nad yw'r bocs yn cael ei ddychwelyd. Mae'r bocsys rheolaeth gyfeintiol mawr ar gyfer eitemau mawr nad ydynt yn ffitio i mewn i'r bocs eiddo 1626 bach ac ni ddylid eu defnyddio dim ond oherwydd bod swm sylweddol o eiddo.

Ni ddylid rhestru cynnwys y bocs ar yr 444 gan nad yw Branston yn agor y bocs i wirio beth sydd y tu mewn iddo.


Os oes gennych unrhyw broblemau, cysylltwch ag NDC Branston ar: 01283 496033



### PROPERTY BOX (Fig 1)



## Property Disposal Process Map



\* Mae **eiddo heb ei awdurdodi** yn cynnwys eitemau y mae at ei gilydd yn anghyfreithlon i rywun ei gael yn ei feddiant, eiddo nad oes gan garcharor unigol hawl i feddu arno yn unol â Deddf Carchardai 1952, Rheolau Carchardai, dogfennau polisi eraill a ddarparwyd gan HMPPS, neu fel y nodwyd gan y Llywodraethwr. Byddai eitem heb ei hawdurdodi pe bai'n cael ei chanfod yng nghell carcharor ond heb ei rhestru ar ei gerdyn eiddo. Mae eitemau heb eu hawdurdodi yn cynnwys eiddo a awdurdodwyd yn ei fformat gwreiddiol ond sydd wedi ei addasu ers hynny at ddiben heb ei awdurdodi. Gall eiddo heb ei awdurdodi amrywio gan ddibynnu ar lefel cymhellion carcharor.

\*\* **Eitemau perthnasol**: wedi'u diffinio yn Adran 42A o Ddeddf Carchardai 1952 fel rhai sy'n ymwneud â chamêrau, dyfeisiau recordio sain, ffonau symudol a dyfeisiau eraill sy'n gallu trosglwyddo neu dderbyn delweddau, seiniau neu wybodaeth drwy gyfathrebiadau electronig.

\*\*\* **Y gellir eu priodoli** = eiddo sydd â pherchennog cyfreithlon. Eiddo **na ellir ei briodoli** yw eiddo sy'n cael ei ganfod y tu mewn i'r carchar neu mewn cerbyd hebrwng carcharorion i'r carchar sy'n ymddangos nad oes ganddo berchennog cyfreithlon neu na ellir ei briodoli i garcharor unigol